

## Cofnodion Cyfarfod yr 3ydd Fedi 2019

**Yn bresennol :-** Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill, Martin Davies, Idris Thomas, Emma Chappell, Richard Ll. Jones, Elfed Wyn Williams, R. Hefin Williams, Jane Pierce a Aled Green.

Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

**Gweddi:** Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

### **1.Ymddiheuriadau.**

Lowri Hughes, Gwawr Wyn Roberts.

### **2.Datgan buddiant**

Dim

### **3a. Cofnodion Cyfarfod 2ail Gorffennaf 2019**

Esboniwyd o ran cyfyngiadau parcio arfaethedig ar gongol Tai Arthur , Penisarwaun fod yna linellau melyn yno yn barod ac mai ond cael eu ail beintio oeddynt.

Fel arall Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

## **B.Materion o'r cofnodion**

**Llythyr Llechi Cymru** – Derbyniwyd llythyr yn arwain o gefnogaeth Cyngor Cymuned Llanddeiniolen i enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Gorllewin Cymru. Cyfeiriwyd a diolchwyd am y teithiau dan arweiniad Idris Thomas a oedd yn ddifyr dros ben, ac fe fydd y syniadau a gafodd eu cyflwyno gan Gwawr yn dilyn y teithiau yn cael eu bwydo i mewn i'r Cynllun Cynefin. Y gobaith fydd y bydd Gwenan Pritchard yn trefnu sesiwn gyda budd-ddeiliaid lleol yn cynnwys y Cyngor Cymuned i benderfynu ar y blaenorieuthau a sut i symud y cynlluniau ymlaen.

**Golau Ffordd Cyffordd Brynrefail** – Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i beth ydy'r lefelau cryfder y goleuadau presennol ger y groesfan ac os oes na angen yw gwella. Y Clerc i gysylltu a'r adran oleuo yn Cyngor Gwynedd.

**Gwasanaeth Tai** – Bydd Gareth Parri ac Arwel Owen dau aelod o'r gwasanaeth tai yn ymuno a'r cyngor yn ein cyfarfod nesaf i drafod y drefn Newydd o osod tai cymdeithasol a ddaw i fodolaeth nes ymlaen yn 2019.

### **4a. Cofnodion Is-bwyllgor 11eg Gorffennaf**

Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir

### **5.Gohebiaeth a materion eraill**

**ICO** – Mae'n amser adnewyddu cofrestrriad rheolwr data. Bydd y ffi yn mynd yn uniongyrchol o'r banc.

**Giât Llwybr 74, Carreg y Gath** – Yn ystod gwyliau yr haf anfonwyd llythyr gan Hefin Williams i Cyngor Gwynedd yn eu hysbysu fod wâl y giât wedi chwalu eto. Mae hyn wedi digwydd 3 gwaith ers ddechrau Mai. Nid oes ymateb wedi ei dderbyn gan Cyngor Sir hyd yn hyn.

**Gordyfiant a cerrig yn disgyn o wâl ar lôn Racca am Clwt y Bont** – Cysylltwyd a'r adran priffyrdd. Cafwyd cadarnhad fod yr arolygwr ffyrdd am gael golwg

**Ysbwriel yn Racca** – Codwyd y mater a'r Cyngor Sir, ac mae bellach wedi ei glirio.

**Tystysgrif SSL Gwefan** – Y clerch i gysylltu a Delwedd.

### **Llythyr gan breswlydd yn Brynrefail**

**Golau Groesffordd** – Does dim angen newid dim ar oleuadau y groesffordd. Cerdded at y groesffordd sydd yn beryg o ochor Trem Eilian. Gordyfiant o da y golau stryd sydd yn creu

y broblem. Pyllau dwr nail ochor l'r llall o'r lon lle mae'r groesffordd .

**Ysbwriel Cysgodfan Bws** – Ysbwriel yn cael ei adael yn y cysgodfan bws yn Brynrefail. Cais i'w glirio a chais i Gwynedd osod bin ysbwriel ger y cysgodfan bws.

Arwydd 50 a 30 mya ger y cae chwarae yn Brynrefail yn rhydd. Gyrru at y Cyngor Sir a chais i'w gwneud yn ddiogel.

Cyfeiriad y Cynghorydd yn anghywir ar y wefan.

**Llythyr gan Breswlydd yn Rhiwlas** – Nodwyd yn y llythyr fod yn gyrru ail gais am Hysbysfwrdd i bentref Rhiwlas a hyn yn dilyn cyfarfod o'r Neuadd Bentref. Derbyniwyd llythyr a chais cyntaf am hysbysfwrdd 2 flynedd yn ôl. Rhoddodd y Cyngor Cymuned gyfraniad o £100 tuag at gronfa i gael hysbysfwrdd yn y Neuadd pryd hynny. Fodd bynnag, ni fu i'r pwyllgor Neuadd ar y pryd dderbyn na chyflwyno y siec trwy'r banc, a dychwelwyd y siec i Cyngor Cymuned. Bellach mae'r Cyngor Cymuned ar ddallt fod yna hysbysfwrdd ger Y Neuadd yn Rhiwlas, ac nid yn teimlo fod angen 2 hysbysfwrdd i bentref mor fach, a hynny gyda sawl pentref y plwyf heb hysbysfwrdd o gwbl. Ers hynny, mae yna ddatblygiadau o fewn y pentref a fod yna sawl grwp wedi ei sefydlu yno. Awgrymwn fod cyfle i wneud ceisiadau mis yma, mewn llythyr o ddiolch iddi am ei gwaith o fewn y pentref.

**Cais am gyfraniad Gwella problemau cyflymder yn Stryd Bellaf Bethel.**

Derbyniwyd llythyr gan y cynghorydd Sion Jones am gyfraniad tuag at gynllun mesuriadau tawelu traffic yno. Cafwyd 2 amcanbris, 1 am £8063.12 a llall am £10,785.78. Mae'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol am y problemau yn yr ardal, ac yn ysgrifennu bron yn fisol y tymor diwethaf at y Cyngor Sir. Er ein bod yn cydnabod fod yn broblem, cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw hyn, ac nid oes gan Y Cyngor Cymuned hawl i ariannu prosiect o'r fath gan ein bod yn gweithio o dan ganllawiau ariannol. Yn ychwanegol i hyn, mae Cynghorwyr Cymunedol yn gorfod gosod praesept a chyllid ar ddechrau blwyddyn a hynny yn statudol, ac felly ddim mewn sefyllfa i allu cyfrannu chwaith.

## 6. Cynllunio

**Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:**

**Clwb Pel Droed Bethel** – Gosod 'portacabin' ar dir ar gyfer defnydd fel storfa.

**Llyn Marchlyn Bach** – Cais am dystysgrif cyfreithlon bwriedig ar gyfer newid ffoes i falf a gwtio argae Marchlyn Bach

**Cae O.S. Seion Caernarfon** – Cais am diwygio amod 2 ar ganiatad rhif C18/0950/18/LL er caniatáu manylion diwygiedig

**Safle yr Hen Sinema, Deiniolen** – Diwygio amod rhif 2 a 12 o ganiatad cynllunio rhif C15/0234/18/LL er mwyn ail leoli'r ddsu dy a'r llecynnau parcio ynghyd a newid eu dyluniad.

**Ceir Cymru Bethel** – Estyniad i adeilad presennol ar gyfer darparu ardal brofi cerbydau

## 7. Ffurflen Flynyddol

Gan fod yr archwilwyr allannol wedi cysylltu angen mwy o wybodaeth, nid ydym wedi cael y ffurflen yn ôl. Fodd bynnag, mae'r archwilwyr wedi derbyn y gwaith ychwanegol a'r esboniadau o'r gwariant a ofynwyd ganddynt bellach, felly y gobaith yw y byddwn yn cael y ffurflen yn ôl yn ystod y mis.

## 8. Llythyr Aled Roberts

Yn dilyn darllen y llythyr yn yr Eco, cynigiwyd fod pawb yn meddwl beth yw eu barn, a rhoi pwyntiau i'r clerc yrru i Aled Roberts. Bydd y clerc yn eu casglu yn y cyfarfod nesaf, a paratoi barn pawb a'i yrru i'r Comisiynydd iaith.

Hefyd, nodwyd fod adroddiad yn y Daily Post dydd Mercher 21ain Awst yn datgelu fod Cyngor Gwynedd angen gwario rhan o £2 filiwn o gronfa i hybu menter siarad Cymraeg yn y berfeddwlad. Y clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglyn a'r fenter a'r gwariant.

### **9. Ebst Cyngor Cymuned**

Nododd Y Clerc, fod angen ebst yn enw Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, yn hytrach na hi ei hun. Cytunwyd ar hyn, ac awgrymwyd iddi gysylltu a holi Cyngor Gwynedd a Delwedd am arweiniad.

### **10. O gwmpas y Bwrdd**

**Toriadau ochr lôn** – Mae sawl un wedi gofyn os oes polisi Newydd gan Cyngor Gwynedd ynglyn a torri tyfiant agosaf at y lonydd yn unig, a gadael y tyfiant cefn? Mae hyn wedi digwydd yn yr ardal gyfan eleni. Y Clerc i gysylltu a chadarnhau.

**Bethel** – Mae ceir yn cael eu gwerthu ar safle yr hen le ail gylchu yn Bethel. Mae'r sylw wedi ei ddatgan i'r Cynghorydd sirol, Sion Jones, sydd bellach yn delio gyda'r mater.

**Tanau Ty Capel, Cysegr** – Mae cryn bryder wedi bod yn y ffordd mae llosgi pethau yn mynd ymlaen yn ardd yr adeilad, mor agos at y tŷ, a'r gwastraff yn yr ardd, a'r peryg i'r tân fynd allan o reolaeth. Y clerc i gysylltu a'r adran lechyd amgylcheddol.

**National Grid** – Y clerc i holi os oes taliadau i wneud i gynghorau Cymuned yn sgil anghyfleuster yn sgil y gwaith Trydan.

**Annibynniaeth** – Beth yw barn Y Cyngor Cymuned? Gofynnodd y Cadeirydd os oedd Y Cyngor eisiau mynegi barn, a penderfynwyd fel mater i'w godi yn nghyfarfod mis Tachwedd, gan fod nifer o waith yn mis Hydref.

**Freshwinds. Penisarwaun** – Gordyfiant yn dod trosodd i'r lôn fawr. Cysylltu a Cyngor Gwynedd.